| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 88 – Côr Cerdd Dant Bl.6 ac iau (YC/Ad)** |
| | **Dan y Don, Emrys Roberts** |

Syndod yw'r rhyfeddodau
Dan y dŵr
Fel twnnel heb ru tonnau
Dan y dŵr;
Rhes arian o drysorau
Rhyw orlawn gist o berlau
Yn crogi ar y creigiau
Dan y dŵr.

Ogof yw cartre cregyn
Llawn y lli,
Cysgod i bob pysgodyn
Llawn y lli;
Y miloedd glas a melyn
Yn gleidio'n ddirgel wedyn
I lawr trwy gwrel claerwyn
Llawn y lli.

Mae eraill, - siarcod mawrion
Is dawns y don;
Rowlia'r octopws creulon
Is dawns y don;
Efallai fod gweddillion
Llongau ar greigiau'r eigion,
A gwên 'sgerbydau gwynion
Is dawns y don!